## Tasg 4

# Cynllunio cartref

Mae Rhys yn byw mewn cynhwysydd sydd wedi cael ei addasu. Mae e wedi talu £45 000 amdano.

Mae'n bosib prynu cynhwysydd gwag ar y we am lai na £10 000.



Mae'n bosib troi'r cynhwysydd yn gartref newydd.

Ar y dudalen nesaf, mae amlinell o lawr cynhwysydd gwag.


1. Cynlluniwch gartref newydd.  Dewiswch yr ystafelloedd, e.e.
    - un neu ddwy ystafell wely
    - lolfa
    - ystafell fwyta
    - cegin
    - ystafell ymolchi.

    Dangoswch y waliau, y drysau a'r ffenestri ar yr amlinell.

    Dangoswch faint pob ystafell. [Os dydych chi ddim yn siŵr beth yw maint ystafelloedd fel arfer, mesurwch ystafelloedd yn eich cartref chi. Mae'n siŵr y bydd angen i'r ystafelloedd yn y cynhwysydd hwn fod yn llai.]

2. Os ydych chi eisiau prynu carped neu goed i fynd dros y llawr, rhaid i chi gyfrifo arwynebedd y llawr.

    Beth yw arwynebedd y llawr? Dangoswch eich gwaith cyfrifo.




3. Disgrifiwch y cartref newydd i'ch partner chi.

4. Ysgrifennwch hysbyseb am y cartref yma. Rhaid i chi ddychmygu ble mae'r cartref.